# Bridgend County Borough Council
## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

**Disgrifiad o'r Swydd**

**1 Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn

**2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad**
  - Arddangos annibyniaeth, gonestrwydd a di-dueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
  - Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau eglur
  - Cytuno ar agendau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio
  - Arwain y pwyllgor wrth ei waith yn:
    - adolygu a chraffu busnes ariannol yr Awdurdod
    - Creu adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â busnes ariannol yr Awdurdod
    - Adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaethau mewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod
    - Creu adroddiadau ac argymhellion i'r Awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
    - Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod
    - Adolygu'r datganiadau ariannol a baratoir gan yr Awdurdod a'i cymeradwyo nhw gyda pŵer dirprwyedig
    - Datblygu perthnasau gydag archwilwyr mewnol ac allanol a Swyddog Monitro'r Awdurdod
    - Datblygu blaenraglen waith wedi'i ddylunio i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor archwilio
    - Adolygu a hunan-asesu perfformiad y Pwyllgor a'i aelodau
- **Hyrwyddo rôl y pwyllgor archwilio**
  - Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y pwyllgor archwilio, gan hwyluso dealltwriaeth am y swydd
  - Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir

- Sicrhau manylder a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac yn ystod y broses archwilio

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

  - Deall y risgiau cyllidebol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr Awdurdod gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu'r amgylchedd risgiau ac unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i'w wella
    - Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau
    - Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor archwilio
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Adeiladu consensws
- Arweinyddiaeth gynhwysol